7.1. Institutions cannot control what the public posts, creating reputational and ethical risks.

7.2. Public tours are popular but participants were concerned that public or media photography, filming, and livestreaming can undermine their attempts at 'respect' during excavation, especially when remains are unexpectedly visible.

7.3. Media coverage can distort context by emphasising "treasure" or dramatic imagery, leading to misunderstandings and strained relationships with communities, churches, or stakeholders.

7.4. Digital and physical reproductions must be handled carefully; inaccurate 3D models or replicas can mislead or appear disrespectful if not clearly explained, and their theological/spiritual role needs considering.

7.5. Digital photography, 3D scanning, modelling, replicas, and biobanks are transforming recording practices but raise issues of accuracy, ethics, and long-term data storage. Digital data can be copied or reused in ways physical remains cannot, prompting concerns about version control, public access, and appropriate use.

7.6. There is no shared system for storing or safeguarding digital data on human remains. Organisations use inconsistent methods, and many lack resources for secure long-term management, increasing risks of data loss, misuse, or misinterpretation.

7.7. Participants wanted more support for public communication, photography policies, media access, and safe social media practices during sensitive work to avoid improvising under pressure.

7.2. Interviewee Quotes

7.2.1. "It fights with curiosity… a sort of ghoulish, mawkishness… 'Look, Mummy, they're digging up a dead body.'" – *Bioarchaeologist /Museum Professional*

7.2.2. "We've had to think carefully about what goes into public view… we've decided that no human remains are actually featured in any of the media coverage." – *Church Staff/Clergy*

7.2.3. "We had a press conference the next day… none of us were really trained… it became a spectacle." – *Cathedral & Church Archaeologist*

7.2.4. "People have phones… it's difficult to police photographs or images being taken." – *Bioarchaeologist /Museum Professional*

7.2.5. "Information and explanation is vital so people understand what they're looking at." – *Heritage Advisor*

7.2.6. "You need to calm down the interest… not necessarily keeping people away, but subtle sorts of ways… reminding people that you are digging a grave." – *Cathedral & Church Archaeologist*

7.2.7. "There are a lot of sensitivities… many of which are difficult to capture in policy." – *Church Staff/Clergy*

7.2. Interviewee Quotes [continued]

7.2.8. “A bit of a media storm was generated… the question [we didn’t like] from the journalists: ‘What have you called her?’… [but] She had [her own] name. She was a real person.” – *Archaeologist/ Policy Advisor*

7.2.9. “There’s not always a specialist on site… someone who’s really familiar with skeletal anatomy… make sure it’s displayed in the right position […] We see this in the press and social media and we've seen high profile cases where you've got a skeleton laid out incorrectly … it's given a message [of carelessness] to the public.” – *Osteologist*

7.3. Focus Groups Findings

7.3.1. There is potential difficulty of managing public expectations when remains are visible or when photography is possible.

7.3.2. The risk of misunderstanding when excavations are not explained clearly to the public, e.g., poor or absent signage or interpretation boards.

7.3.3. It is important to openly communicate to prevent rumours or controversy, yet sometimes it can be necessary to exclude human remains from media coverage to avoid sensationalism.

7.3.4. The need for clear messaging about why remains are being excavated, analysed, or reburied. When projects do not proactively explain what is happening, as speculation may increase the chance of hostile or inaccurate narratives appearing, especially online.

7.3.5. They stressed that digital representations must be treated with the same respect as the remains themselves.

7.4. Focus Group Quotes

7.4.1. “Some [3-D scans of human remains] are accompanied with the raw data… anybody could go in and reproduce a human bone from a 3D print […] What happens to that data? Who owns that data? How is respect adhered to in those types of things?”

7.4.2. “…at what point do we say scientific value is not as important as knowing the wishes of the dead?”

7.5. Recommendations

7.5.1. Provide media training and agreed messaging for anyone speaking publicly, clarifying who speaks, what is said, which platforms are used, and what requires context.

7.5.2. Inform local communities and stakeholders in advance about planned outreach to reduce surprise and build trust, offering early briefings before sensational coverage appears.

7.5.3. Use clear no-photo zones, no-photo rules, and trained stewards during public access or school visits. When prohibiting photography, explain the reasons (privacy, dignity, legal constraints). BABAO guidance on photographing human remains can shape discussions around this for churches.

7.5.4. Prepare press templates with short contextual statements and FAQs so accurate information is available immediately.

7.5.5. Assign a named contact and a simple escalation plan to correct misinformation quickly and calmly.

7.5.6. Ensure specialist involvement (e.g., osteologists) so human remains are handled, displayed, and photographed appropriately during public engagement or media coverage, and embed this requirement in project plans/guidance.

7.5.7. Develop sector-wide criteria for when digital models and replicas are appropriate in church contexts, outlining pros, cons, and examples of best practice.

7.5.8. Provide guidance for using open-access platforms that store data on human remains, ensuring digital models and replicas are accessible and replicable.

7.5.9. When publishing photos, 3D models, or replicas, include clear provenance, purpose, and ethical framing, and consider restricted access for sensitive datasets.

8. COMMUNITY AND DESCENDANT INVOLVEMENT IS ETHICALLY IMPORTANT BUT COMPLEX IN PRACTICE.

8.1. Community and descendant involvement is widely valued but difficult to define, verify, prioritise, or integrate into existing legal and practical frameworks.

8.2. Although policies mention consulting communities and descendants [1, 2, 3, 4, 5], participants felt there are no practical frameworks for meaningful involvement.

8.3. Involvement in excavation and reburial is seen as ethically important but hard to achieve; consensus is rare, and the process can be time-consuming and costly.

8.4. Descendant claims are rare but complex, especially when names of the (potentially) affected dead are known, communities feel connected to a site, or commercial DNA testing introduces new or unverifiable ancestry claims.

8.5. Participants disagreed on which community to consult—parish, wider public, faith groups, or heritage bodies—and noted the absence of shared protocols for who to engage, when, or how to assess descendant legitimacy.

8.6. Participants with legal roles noted that descendant claims are difficult to verify, especially for remains over 100–300 years old.

8.7. Decisions about remains in church contexts fall under faculty jurisdiction, giving the Church of England legal authority over its buildings and burial grounds. Even when communities or descendants have strong views, final decisions may rest with the diocesan chancellor, shaped by previous rulings.

8.8. There is no standard for how much influence descendants should have or how to determine how "affected" a community must be to shape decisions.

8.9. Community views are often diverse or contradictory, and professionals lack guidance on how to interpret or balance them.

8.10. Engagement often happens too late or only when controversy arises; participants stressed the need for earlier, clearer, and more structured communication.

8.11. In church contexts, faculty jurisdiction may override or limit community or descendant involvement, creating tensions.

8.12. Consultation can also lead to over correction, with remains being hidden or marginalised.

8.2. Interviewee Quotes

8.2.1. "It's essential to offer the opportunity… if you include people and talk to them, most people appreciate it." – *Heritage Advisor (Public Engagement)*

8.2.2. "Largely, the general feeling is indifference with a lot of the human remains." – *Church Buildings Advisor*

8.2.3. "It is absolutely essential that known descendants be advised… two of them paid for the restoration of tombs." – *Church Staff / Clergy*

8.2. Interviewee Quotes [continued]

8.2.4. "[Descendant claims] sounds like a can of worms… my instinct is that it probably does have to remain a matter for the church [to decide]." – *Diocesan/Church Legal Advisor*

8.2.5. "We worked with descendants… they were able to tell us family history and stories." – *Clergy/Church Staff*

8.2.6. "It would have been nice to do a study… but some of those… it was a no-no, because the relatives felt like it was insensitive for the archaeologists to… study them in the lab." – *Archaeologist*

8.3. Focus Groups Quotes

8.3.1. "No such claims are likely to be successful for remains over 300 years old because they're very difficult to prove. […] When it comes to the faculty jurisdiction and rules… precedent is very important… there will be judgments out there that are relevant." – *Osteologist/Policy-Ethics Advisor*

8.3.2. "If they're aware of somebody within the building that's buried, that they attach a level of importance to… then they would be more inclined to keep them in the building." – *Heritage Planner*

8.4. Decisions to be made

Participants tended to outline decisions that need to be made rather than recommendations for descendant/community involvement:

8.4.1. How do we determine who should be consulted (geographic proximity, faith identity, local interest groups, heritage societies, etc.)?

8.4.2. What evidence should be required for recognising a descendant claim (documented genealogy, parish records, community testimony, DNA evidence)?

8.4.3. Should different levels of proof trigger different levels of community involvement?

8.4.4. What practical steps should institutions follow when human remains with living descendants are or might be discovered: Notify whom? Consult when? Record decisions how? Communicate decisions to communities and families how?

8.4.5. When community expectations conflict with scientific or theological priorities, what principles should guide decision-making? Should a tiered decision tool be created?

8.4.6. What documentation should be required to demonstrate that community or descendant views were heard, considered, and ethically incorporated.

8.4.7. Resources such as the Chartered Institute for Archaeologists (CIfA) 'Toolkit for Public Engagement' can provide an adaptable starting point for churches in the meantime.

9. REPORT CONCLUSION

This report highlights the urgent need for clearer, more coherent, and more ethically grounded approaches to the excavation, analysis, and reburial of human remains and burial artefacts in churches across England and Wales. While practitioners share a commitment to respecting the dead, the absence of centralised, consistent guidance and the complexity of church contexts create uncertainty and uneven practice. Divergent ethical perspectives, limited support for decision-makers, and gaps in the management of burial artefacts further complicate this landscape.

The recommendations presented here—ranging from improved guidance and training to clearer ethical frameworks, better communication strategies, and practical tools for managing remains and artefacts—aim to support a more transparent, accountable, and collaborative system. Strengthening cross-sector understanding, enhancing the visibility of advisory bodies, and ensuring that churches, communities, and professionals can navigate these sensitive issues with confidence will help safeguard both the dignity of the deceased and the integrity of churches, museums, and archaeological practice when stewarding their remains and artefacts.

10. RESEARCH TEAM

Dr Ruth Nugent is a burial archaeologist at the University of Liverpool, specialising in the excavation and reburial of human remains and burial items in Britain's churches. She led *The Church Reburial Policy* project which produced this report and *The Human Remains Project: a digital library of mortuary science and investigation* (2019-2026). She is a Trustee and Executive Committee member of *The Society of Church Archaeology* and was its journal editor 2022-2024. She is also a member of the APABE consultative forum.

Dr Reanna Phillips is an archaeologist specialising in the social practices of death and burial, particularly from the Roman world to later medieval Europe. Her research primarily examines funerary practices as extended, performative processes enacted by the living. She has published on funerary performance, curated objects and social negotiation in mortuary contexts, and develops interdisciplinary approaches to death, memory and the archaeology of the body. Reanna has taught archaeology and heritage in UK universities, field excavations and also incarcerated learners in UK prisons, and has worked in commercial archaeology.

Katherine Foster was a member of *The Human Remains Project* (UKRI) and has published on church heritage and policy, past and present. Her interests include research, documentation, and collaborative investigative work related to human remains studies.

Dr Adam Daubney is a finds specialist currently working for the Portable Antiquities Scheme and was a member of *The Human Remains Project* (UKRI) where his research focussed on the disturbance of intramural burials and associated grave goods in churches and cathedrals. He was undertaken a variety of commercial and research projects, including the 'Afterlife of Private Collections' funded by Historic England.

Dr James O. Butler is a linguistics researcher who specialises in spatial description and conducting corpus-led investigations and was a member of *The Human Remains Project* (UKRI). His primary contribution to this investigation focused on the wording, interpretation, and means for the potential development of a formal standardisation of the legal covenants that underpin the rights and responsibilities for properties where there is a reasonable expectation that human remains may exist in some manner.

Dr Thomas J. Farrow is a burial archaeologist involved with *The Human Remains Project* (UKRI). His work focuses on how disarticulated human remains (charnel) were managed and encountered at church and cathedral sites in England, c.1500-c.1900AD.

11. PROJECT PARTNERS

Dr Louise Hampson is Deputy Director of The Centre for the Study of Christianity and Culture, University of York. Originally a professional archivist, she now works on medieval and early modern culture and stained glass. She completed a PhD in History of Art at the University of York in 2016 on the post-medieval reception and care of the stained glass of York Minster. She has published on the Minster and articles on topics as varied as St Thomas Becket and the medieval Jewish history of York. A book based on her thesis in preparation with Brill's Art and Material Culture in Medieval and Renaissance Europe series.

Alfred Hawkins *BA (Hons) MA MCIfA FSA* has worked in the commercial archaeology and heritage sectors as an archaeological researcher, archaeologist and, subsequently, a historic building specialist. He is Curator of Historic Buildings for HM Tower of London for Historic Royal Palaces, and Cathedral Archaeologist at Salisbury & Portsmouth Cathedrals. At Historic Royal Palaces he has advised on large scale development projects including Beyond the Deepening Shadow and Superbloom alongside many other conservation projects across these sites. Alfred is a specialist in the history, architecture and archaeology of the Tower of London and Banqueting House, Whitehall, archaeological best practice and human remains, building conservation, and ecclesiastic law, with a particular interest in the conservation and archaeology of Royal Peculiars and Cathedrals. Alongside this, Alfred regularly makes on screen appearances on HRP's socials and documentaries including BBC 2's Digging for Britain, Channel 5's Inside the Tower of London, and Discovery Channel's Unearthed.

Suzanne Evans is a church heritage project manager, currently undertaking doctoral research at the University of Chester on later medieval funerary monuments and the use of digital technologies to interpret church archaeology. She is the founder of *Ecclesia Rose*, supporting churches with reordering, conservation, community consultation and National Lottery Heritage Fund projects. Sue previously worked in museum services as a curator and archaeology advisor, and has experience in excavation, collections management, heritage interpretation and community engagement. She is also a Trustee of Llangollen Museum and sits on the National Landscapes Heritage Steering Committee.

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad yma yn adolygu'r gyfraith, y polisïau a'r canllawiau cyfredol sy'n llywodraethu gwaith cloddio, dadansoddi ac ailgladdu gweddillion dynol archaeolegol ac arteffactau claddu mewn eglwysi yng Nghymru a Lloegr. Gan dynnu ar gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda 40 o weithwyr proffesiynol, mae'n nodi bylchau o bwys yn y canllawiau presennol, safbwyntiau moesegol gwahanol, a heriau ymarferol sy'n wynebu'r rhai sy'n gweithio gyda chladdedigaethau eglwysig.

Disgrifiodd y cyfranogwyr y dirwedd canllawiau yn gyson fel un dameidiog ac anodd ei llywio, ac un sy'n cael ei chymhwyso'n anwastad ar draws rhanbarthau ac enwadau. Roedd y safbwyntiau moesegol ar ailgladdu, cadw ac arddangos gweddillion yn amrywio'n fawr, a daeth rheolaeth arteffactau claddu i'r amlwg fel un o'r meysydd lle roedd y canllawiau ar eu lleiaf cyson.

Mae'r adroddiad yn argymell y dylid datblygu canllawiau pwrpasol i Gymru; creu hyb canolog i gyfeirio'r defnyddwyr at y polisïau presennol; sefydlu meini prawf moesegol ac ymarferol cliriach ar gyfer y broses benderfynu; a gwella'r cyfathrebu, yr hyfforddiant a'r cydweithredu ar draws y sector.

Dyma'r prif faterion a gafwyd:

1. Mae tirwedd y canllawiau presennol ynghylch gweddillion dynol ac eitemau claddu yn dameidiog ac yn anodd ei llywio.

2. Mae safbwyntiau moesegol ar ailgladdu, cadw ac arddangos gweddillion dynol ac arteffactau claddu yn amrywio'n ddirfawr o fewn y sector.

3. Rheoli arteffactau claddu (nwyddau claddu) yw un o'r meysydd lle mae'r canllawiau ar eu lleiaf cyson.

4. Mae Panel Cynghori APABE ar gyfer gweddillion dynol yn uchel ei barch ond heb ei ddeall yn dda na'i ddefnyddio'n ddigon eang.

5. I eglwysi sy'n rheoli casgliadau neu gloddiadau archaeolegol mae ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a'r cyhoedd yn peri risgiau o ran moeseg ac enw da.

6. Mae cyfranogiad cymunedau a disgynyddion yn foesegol bwysig ond yn gymhleth yn ymarferol.

7. Mae'r cwestiwn pwy all a phwy ddylai wneud penderfyniadau allweddol ynghylch casgliadau archaeolegol o weddillion dynol ac arteffactau claddu mewn eglwysi yn aml yn aneglur.

Dyma’r argymhellion allweddol:

1. Datblygu canllawiau pwrpasol ar gladdedigaethau eglwysig archaeolegol yng Nghymru.

2. Creu hyb canolog hirdymor sy'n cyfeirio’r defnyddwyr at yr holl ganllawiau perthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr.

3. Llunio "map cyfeiriadau" i helpu’r ymarferwyr i weld pa gyfreithiau a pholisïau sy'n gymwys mewn gwahanol gyd-destunau.

4. Darparu hyfforddiant a chyrsiau gloywi rheolaidd ar bolisïau a chanllawiau sy’n benodol i'r eglwysi.

5. Sefydlu hierarchaeth o egwyddorion neu broses flaenoriaethu i lywio drwy densiynau moesegol ynghylch ailgladdu, cadw ac arddangos gweddillion.

6. Cyflwyno strategaethau cyfathrebu clir (arwyddion, dehongli, briffio cymunedol) i ddangos arferion parchus.

7. Safoni meini prawf ar gyfer ailgladdu, cadw ac arddangos gweddillion dynol, nwyddau claddu, dodrefn arch a chofebau angladdol a’u storio dros dro.

8. Cynnig enghreifftiau a dulliau penodol i'r eglwys ar gyfer trin, storio a thynnu lluniau eitemau â pharch, ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu cylch.

9. Creu dulliau ymarferol (ffurflenni cadwyn cystodaeth, cronfeydd data cysylltiedig) i gadw arteffactau claddu a gweddillion dynol yn gysylltiedig.

10. Datblygu meini prawf ar gyfer rheoli arteffactau claddu, gan gynnwys pryd i’w hailgladdu, eu cadw, eu harddangos neu eu trosglwyddo i amgueddfeydd.

11. Sefydlu cytundebau i’w defnyddio ymlaen llaw rhwng eglwysi, amgueddfeydd ac eglwysi cadeiriol ar gyfer storio neu arddangos arteffactau.

12. Gwella’r ymwybyddiaeth o’r APABE a’r defnydd arno yn Lloegr ac ystyried creu corff Cymreig cyfatebol.

13. Darparu canllawiau ynghylch y cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r cyhoedd, a’r rheiny wedi'u teilwra at gyd-destunau eglwysig, gan gynnwys mesurau lliniaru risg.

14. Egluro cyfranogiad cymunedau a disgynyddion, gan gynnwys gofynion ynglŷn â thystiolaeth a lefelau ymgynghori.

2.1. CYD-DESTUN YR ADRODDIAD HWN

Adolygodd *Prosiect Polisi Ailgladdu Eglwysig*, a ariannwyd gan Gronfa Cymorth Polisi Prifysgol Lerpwl (2024–2025) y polisïau a'r canllawiau presennol ynglŷn â gweddillion dynol archaeolegol ac arteffactau claddu mewn eglwysi yng Nghymru a Lloegr. Er bod canllawiau sector-benodol o sylwedd ar gael i amgueddfeydd, osteolegwyr ac archaeolegwyr maes, dywedodd y rhai sy'n gweithio mewn cyd-destunau eglwysig eu bod yn teimlo bod llai o gefnogaeth ar gael iddyn nhw.

Mae claddedigaethau eglwysig yn cynnwys haenau ychwanegol o gymhlethdod, gan gynnwys sensitifrwydd diwinyddol, gwahaniaethau enwadol, a chyfraniad clerigwyr, Pwyllgorau Cynghori Esgobaethol, penseiri, cyfreithwyr, cynulleidfaoedd, disgynyddion (posibl), a chymunedau lleol. Mae canllawiau presennol yr amgueddfeydd ar ddychwelyd eitemau ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn aml yn anaddas i eglwysi, lle mae'r ystyriaethau crefyddol a moesegol yn bur wahanol.
Y safleoedd sydd o dan ofal yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Loegr sy'n cael eu heffeithio fwyaf a hynny oherwydd eu hanes hir o gladdedigaethau mewn adeiladau eglwysig a mynwentydd. Mae gan eglwysi'r Alban system archaeoleg-treftadaeth a rhwydwaith cymorth gwahanol, mwy integredig, sydd y tu hwnt i gylch gwaith y prosiect yma [1, 2, 3]. Bydd eglwysi anghydffurfiol fel arfer yn defnyddio claddfeydd annibynnol neu fynwentydd cyhoeddus, ac anaml y bydd gan eglwysi Catholig Rhufeinig isadeiledd archaeolegol, systemau neu rolau mewnol ffurfiol, sy'n eu gosod nhw hefyd y tu allan i rychwant yr adolygiad yma i raddau helaeth.

2.2. METHODOLEG YR YMGYNGHORI A'R YMCHWILIO

Casglodd y prosiect dystiolaeth trwy gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda 40 o weithwyr proffesiynol ar draws y sectorau archaeoleg, cynllunio, clerigwyr a staff eglwysig, polisi/moeseg, amgueddfeydd ac osteoleg. Archaeolegwyr eglwysi cadeiriol neu esgobaethau oedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr archaeolegol, neu archaeolegwyr masnachol â phrofiad o gloddio claddedigaethau eglwysig. Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws i fireinio a phrofi'r canfyddiadau wrth i'r rheiny ddod i'r amlwg. Defnyddiwyd adolygiad o ddogfennau polisi sydd ar gael i'r cyhoedd neu wedi'u rhannu'n gyhoeddus (Tachwedd 2024–Mawrth 2025) i fwydo'r broses o ddylunio'r cyfweliadau a dewis cyfranogwyr. Ar gyfer yr adroddiad yma, mae "eglwysi" yn cyfeirio at adeiladau eglwysig gweithredol (nid eglwysi sydd wedi'u colli, wedi dadfeilio neu wedi'u datgomisiynu) sy'n cynnwys claddedigaethau dros 100 mlwydd oed, yn unol â diffiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o weddillion dynol archaeolegol [1, 2]. Roedd claddedigaethau, cerrig beddi a chofebau diweddar y tu allan i rychwant y prosiect.

Bedd offeiriad canoloesol dienw, Cadeirlan Tyddewi, Cymru.

Llun: R. Nugent

Unknown medieval priest's tomb, St David's Cathedral, Wales.

Photo: R. Nugent

Y CANFYDDIADAU ALLWEDDOL O'R CYFWELIADAU A'R GRWPIAU FFOCWS

3. MAE TIRWEDD Y CANLLAWIAU PRESENNOL YNGHYLCH GWEDDILLION DYNOL AC EITEMAU CLADDU YN DAMEIDIOG AC YN ANODD EI LLYWIO.

3.1. Canfyddiadau'r Cyfweliadau

3.1.1. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at lawer o gyfreithiau a chanllawiau sy'n gorgyffwrdd fel rhai sy'n berthnasol i'w rolau (Tabl 1) ond roedden nhw'n aml yn dod ar draws gwrthgyferbyniadau rhwng y rhain.

Tabl 1: Polisïau/Canllawiau a grybwyllwyd yn y cyfweliadau	Nifer y Cyfeiriadau
Canllawiau APABE (2017)	25+
Deddf Claddu 1857	20+
Deddf Meinweoedd Dynol	15+
Canllawiau CIfA *(gan gynnwys y Cod Ymddygiad)*	15+
Canllawiau BABAO	10+
Canllawiau Historic England *(e.e., Gwyddoniaeth a'r Meirw)*	10+
Awdurdodaeth Hawlebau/Cyfraith Eglwysig	10+
Canllawiau'r DCMS (2005) – *Amgueddfeydd*	8+
Deddf Claddfeydd Segur*/Cyfreithiau Eraill ar Gladdu*	5+
Polisïau Mewnol Sefydliadau	5+

3.1.2. Roedd ymarferwyr ar ddechrau eu gyrfa yn arbennig yn gweld y polisïau yma yn niferus, yn anghyson ac yn anodd eu dehongli.

3.1.3. Yn aml, doedd gan glerigwyr a chynllunwyr ddim hyder yn y canllawiau, gan ddibynnu ar ddeongliadau ail-law yn hytrach nag ymgynghori â'r dogfennau'n uniongyrchol.

3.1.4. Roedd osteolegwyr a staff amgueddfeydd yn teimlo'n fwy hyderus am fod gan eu sectorau nhw ganllawiau cliriach, mwy sefydledig – er nad yw'r rheiny wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer claddedigaethau eglwysig.

3.1.5. Galwai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr am fframwaith unedig, syml, a gâi ei ddiweddaru'n rheolaidd.

3.1.6. Mae'r canllawiau'n amrywio yn ôl rhanbarth, enwad, math o safle, ac a yw'r eglwys yn weithredol ynteu wedi'i datgomisiynu, sy'n ychwanegu rhagor o gymhlethdod.

3.1.7. Mae gan Loegr nifer o gyrff cenedlaethol a chanllawiau ar y cyd (Historic England, Eglwys Loegr, APABE), tra nad oes gan Gymru bolisi cynhwysfawr ac mae'n dibynnu ar ddeunydd cyfyngedig o Amgueddfa Cymru a deunyddiau'r Eglwys yng Nghymru, nad yw'r naill na'r llall ohonynt yn cynnig canllawiau manwl ar weddillion dynol archaeolegol neu arteffactau claddu.

3.1.8. Mae canllawiau Cymru'n canolbwyntio ar gynnal a chadw mynwentydd ond dydyn nhw ddim yn rhoi llawer o gyfarwyddyd ynghylch gweddillion a geir y tu mewn i adeiladau eglwysig, er enghraifft wrth eu had-drefnu neu eu hadnewyddu.

3.1.9. Roedd y cyfranogwyr o Gymru yn aml yn troi at ganllawiau Lloegr neu'n gwneud penderfyniadau ad hoc, gan adael eglwysi, datblygwyr ac awdurdodau lleol yn ansicr ynghylch cyfrifoldebau a'r arferion gorau.

Tabl 2: Rolau o'u cymharu â defnyddio Polisïau/Canllawiau

Categori'r Rôl	Cyfranogiad	Ymgysylltu â'r Polisïau/Canllawiau	Lefel hyder
Osteolegwyr	Dadansoddi gweddillion dynol, addysgu, cynghori amgueddfeydd	Ymgysylltiad cryf â BABAO, y Ddeddf Meinweoedd Dynol a chanllawiau moesegol; eiriol dros ddiweddariadau.	Uchel
Cynghorwyr Polisi a Moeseg	Awdura canllawiau, fframweithiau moesegol, ymgynghori ar draws y sector	Cyfranogiad dwfn mewn llunio a dehongli polisïau; eiriol dros eglurder a chynhwysiant.	Uchel
Gweithwyr Amgueddfa Proffesiynol	Curadu, gofalu am gasgliadau, ymgysylltu â'r cyhoedd	Cyfeirio at bolisïau'r DCMS, APABE, a pholisïau mewnol amgueddfeydd; pwysleisio arddangos moesegol a chydsyniad.	Cymedrol–Uchel
Archaeolegwyr a Rheolwyr Prosiectau	Cloddio, arwain prosiectau, rheoli mynwentydd	Cyfeirio'n aml at APABE, CIfA, a'r Deddfau Claddu; rhai yn dibynnu ar WSIs o ran cydymffurfio â pholisïau.	Cymedrol–Uchel
Clerigwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig	Goruchwylio mynwentydd, ailgladdu, gofal bugeiliol	Ymwybyddiaeth gymysg; rhai yn dibynnu ar gynghorwyr yr esgobaeth neu gyngor ad hoc; ychydig sy'n cyfeirio at y canllawiau ffurfiol.	Isel–Cymedrol
Cynllunwyr a Chynghorwyr Treftadaeth	Rheoli datblygu, cyngor ar gynllunio, effaith ar dreftadaeth	Cyfeirio'n aml at APABE a'r Deddfau Claddu; nodi anghysondebau o ran eu cymhwyso ac o ran amwysedd y gyfraith.	Isel–Cymedrol

3.2. Dyfyniadau o'r cyfweliadau:

3.2.1. "Mae'r dirwedd canllawiau yn annigonol, bron nad yw'n bodoli." — *Cynllunydd/Cynghorydd Treftadaeth*

3.2.2. "Fe weles i'r prosesau eglwysig braidd yn ddryslyd." — *Cynllunydd/Cynghorydd Treftadaeth*

3.2.3. "Rwy'n credu bod yr holl bolisïau sy'n bodoli... mor amwys... Byddwn i hefyd yn cyfeirio at fy math i fy hun o foeseg broffesiynol." — *Osteolegydd/Cynghorydd Polisi*

3.2.4. "Byddai'n fuddiol iawn... rhestru'r holl ganllawiau sydd ar gael mewn un lle." — *Cynghorydd Treftadaeth/Polisi Cenedlaethol*

3.2.5. "Mae'n aml yn anodd bod yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r darn cywir o ddeddfwriaeth ac yn rhoi'r cyngor cywir." — *Cynllunydd/Cynghorydd Treftadaeth*

3.2.6."Mae'r canllawiau yno i roi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dŷn nhw ddim yno i wneud penderfyniadau drosoch chi... Rhaid i weithwyr proffesiynol [...] wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain ac mae'n rhaid iddyn nhw fod yn atebol am y penderfyniadau hynny. Ond fydd y canllawiau ddim yn codi'r cyfrifoldeb hwnnw oddi arnyn nhw." — *Cynghorydd Polisi*

3.2.7. "Roeddwn i'n gweithredu dan ddwy set o reolau... roedd rheolau'r eglwys gadeiriol yn llawer mwy amwys." — *Archaeolegydd*

3.3. Canfyddiadau'r Grwpiau Ffocws

Atgyfnerthodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws y canfyddiadau o'r cyfweliadau, sef bod y dirwedd canllawiau yn ddryslyd, yn anghyson ac yn anodd ei llywio. Disgrifiwyd y system fel "un astrus", "cors", a "clytwaith", gyda llawer heb wybod pa ddogfennau oedd yn gymwys i ba gyd-destunau.

3.3.1. Mae'r maes yn rhy gymhleth ar gyfer un ddogfen unedig, ond mae ar yr ymarferwyr angen map cyfeiriadau clir ar fyrder, a hwnnw'n dangos ble i ddod o hyd i'r canllawiau perthnasol.

3.3.2. Mae llawer o ymarferwyr ar ddechrau eu gyrfa yn mynd i'r maes heb hyfforddiant mewn polisi neu ganllawiau ar gyfer eglwysi, er bod ganddyn nhw sgiliau technegol cryf.

3.3.3. Mae trosiant staff ac arferion anghyson wrth drosglwyddo'r awenau yn golygu bod gwybodaeth sefydliadol yn aml yn cael ei cholli, gan adael staff newydd yn anwybodus ynglŷn â'r canllawiau presennol.

3.3.4. Hyd yn oed pan fydd canllawiau ar gael, isel yw'r ymwybyddiaeth ac ychydig yn unig o waith gorfodi sy'n digwydd: "*Mae pobl yn dweud eu bod nhw'n dilyn y canllawiau, ond o'u gwthio, maen nhw heb eu darllen mewn gwirionedd*."

3.3.5. Nododd cyfranogwyr hefyd fod diweddariadau i ganllawiau yn aml yn cael eu colli am nad oes system hysbysu ddibynadwy, a bod y sianeli cyfathrebu presennol (e.e., cyrff proffesiynol) yn cyrraedd y rhai sydd wedi mynd ati i ymuno â nhw yn unig.

3.3.6 Mae Priodoriaethau [h.y. eglwysi y tu allan i system reoli Esgobaethau/Comisiwn Ffabrig Eglwysi Cadeiriol Lloegr (CFCE) yn peri problem amlwg. Er bod y gwaith a wneir yn y rhain yn dal yn dod o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, does dim mecanwaith i alluogi gwaith o fewn y mannau yma nac i orfodi'r arferion gorau a does dim goruchwyliaeth o bwys arnyn nhw. Ar gyfer y mannau yma mae angen dull unigryw a all gael ei ddefnyddio os yw'r sefydliad sy'n gyfrifol amdanyn nhw'n dewis gwneud hynny. Er nad yw'r Priodoriaethau'n niferus, maen nhw'n gyfraniad arwyddocaol at reoli gweddillion dynol yn Lloegr. Maent yn arwydd o'r protocolau a'r arferion anghyson sy'n effeithio ar wahanol fathau o eglwysi.

3.4. Dyfyniadau o'r Grwpiau Ffocws

3.4.1. "Mae'n amrediad aruthrol [o ganllawiau]... byddai'n bur anodd dod â'r cyfan ynghyd mewn un."

3.4.2. "Mae arnon ni angen rhywbeth sy'n eich tywys i ble i fynd, nid dogfen enfawr arall."

3.4.3. "Dim ond hyn a hyn all gael ei wneud — mae dal angen i bobl gymryd y cam cyntaf a mynd ati i'w darllen."

3.4.4. "Mae arnon ni angen map, nid dogfen enfawr arall."

3.4.5. "Mae'n rhaid ei gadw fe yn rhywle na fydd yn diflannu."

3.4.6. "Ddylai canoli ddim creu rhagor o ddogfennau — dylai'n helpu ni i ddod o hyd i'r rhai sy'n bodoli eisoes."

3.4.7. "Dyw wardeniaid [eglwys] ddim yn gwybod beth i'w wneud. Mae arnyn nhw angen rhywbeth ar y safle — fel pecyn cymorth."

3.3. Argymhellion

3.3.1. Creu polisi/canllawiau pwrpasol ar gyfer claddedigaethau eglwysig archaeolegol yng Nghymru.

3.3.2. Creu hyb canolog sy'n cyfeirio'r defnyddwyr at ganllawiau presennol Cymru a Lloegr a gosod yr hyb gyda gwesteiwr cadarn, sefydlog — yn ddelfrydol sefydliad neu gorff sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth — i sicrhau ei fod yn para am gyfnod hir.

3.3.3. Datblygu "map cyfeiriadau" sy'n helpu'r ymarferwyr i nodi pa ddogfennau sy'n gymwys i ba gyd-destunau a hwnnw'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i'r gyfraith, y polisi a'r canllawiau esblygu.

3.3.4. Darparu hyfforddiant perthnasol mewn polisi/canllawiau ar gyfer eglwysi a chyrsiau gloywi wrth i'r rhain esblygu.

3.3.5. Mae *Historic Royal Palaces, Collections and conservation policies, 03.5.4, Human Remains Policy* (Hawkins, 2024) yn esiampl ar gyfer Priodoriaethau ac eglwysi neu sefydliadau eraill y tu allan i oruchwyliaeth Eglwys Loegr/CFCE wrth greu neu addasu eu polisïau a'u canllawiau ar gyfer gweddillion dynol mewn cyd-destunau eglwysig.

3.4. Penderfyniadau sydd i'w gwneud

3.4.1. Pa fformatau (e.e. coed penderfynu, rhestrau gwirio, llifoedd gwaith, canllawiau cychwyn cyflym) fyddai orau i gynnal system o ganllawiau unedig, a phwy ddylai gynhyrchu'r rhain a'u cynnal?

3.4.2. A ddylai penderfynwyr gadarnhau eu bod nhw wedi darllen ac wedi deall y canllawiau, a phwy fyddai'n gyfrifol am atebolrwydd a gorfodi?

3.4.3. Pa fecanweithiau (e.e. gwefan ganolog, bwletinau o dro i dro, diweddariadau esgobaethol, hyfforddiant ymsefydlu) fyddai'n gwneud canllawiau traws-sector yn haws i'w diweddaru, a phwy ddylai gydlynu'r gwaith yma?

3.4.4. Sut byddai canllawiau a mecanweithiau eraill yn ategu gwahanol lefelau o ddealltwriaeth, o arbenigwyr i staff lleyg a gwirfoddolwyr?

4. MAE SAFBWYNTIAU MOESEGOL AR AILGLADDU, CADW AC ARDDANGOS GWEDDILLION DYNOL AC ARTEFFACTAU CLADDU YN AMRYWIO'N DDIRFAWR O FEWN Y SECTOR.

4.1. Canfyddiadau'r Cyfweliadau

4.1.1. Mae "parch at y meirw" yn cael ei ystyried yn hanfodol ym mhob sector ond mae'n cael ei ddehongli mewn ffyrdd sylfaenol wahanol. Gwelsom fod parch yn werth sy'n cael ei rannu ond yn arfer sy'n ddadleuol.

4.1.2. Mae modd grwpio ymatebion i'r cwestiwn: "Beth mae parch at y meirw yn ei olygu i chi a sut mae modd ei ddangos?" fel a ganlyn:

4.1.2a. Dehongli a rhannu straeon bywyd yr ymadawedig trwy ddadansoddi ac ymgysylltu cyhoeddus gofalus.

4.1.2b. Ailgladdu a chyn lleied â phosibl o amlygiad i'r cyhoedd neu ymgysylltu â nhw.

4.1.2c. Sgrinio cloddiadau o olwg y cyhoedd.

4.1.2d. Osgoi sgrinio cloddiadau o olwg y cyhoedd.

4.1.2e. Cofnodi, labelu, a chasglu hyd yn oed darnau bach yn hynod ofalus.

4.1.2f. Eu trin nhw mewn ffordd sy'n gyson â'r modd y bwriadwyd claddu'r ymadawedig yn wreiddiol.

4.1.2g. Cadw gweddillion dynol ac arteffactau claddu o fewn safle'r eglwys (tir cysegredig).

4.1.2h. Cadw arteffactau claddu a gweddillion dynol gyda'i gilydd.

4.1.2i. Arddangos arteffactau yn foesegol at ddibenion addysgol a gwyddonol ond ailgladdu gweddillion dynol.

4.1.2j. Arddangos gweddillion dynol yn foesegol at ddibenion addysgol a gwyddonol.

4.1.2k. Trafod 'parch' yn agored yn fwy helaeth ar y safle gyda chyfranogwyr.

4.1.2l. Trin a thrafod gweddillion dynol yn "barchus".

4.1.2m. Cadw'n llwyr at y canllawiau.

Tabl 3: Cefnogaeth o blaid ac yn erbyn ailgladdu vs. cadw gweddillion dynol o'r cyfweliadau

Safbwynt	**Nifer y Cyfranogwyr**
O blaid Ailgladdu	12
O blaid Cadw ar gyfer Ymchwil	8
Barn Gymysg/Aneglur	14

4.1.3. Roedd y cyfranogwyr yn ei chael yn anodd esbonio 'parch' am nad yw'r canllawiau presennol yn cynnig diffiniad gweithredol cyffredin; mae dogfennau'n crybwyll y term ond anaml y maen nhw'n amlinellu gweithredoedd sy'n ei ddangos.

4.1.4. Roedd llawer yn rhagdybio bod "pawb yn gwybod beth yw parch" ond roedd y safbwyntiau'n amrywio'n fawr, yn enwedig ynghylch a yw edrych ar weddillion dynol mewn eglwysi yn briodol.

4.1.5. Roedd y diffyg meini prawf clir yn peri pryder: roedd y cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gweithredu'n barchus ond yn ofni na allen nhw gyfiawnhau eu penderfyniadau pe baen nhw'n cael eu herio, gan eu gadael yn poeni y gallai eu moeseg gael ei gwestiynu.

4.1.6. Roedd amrywiaeth mawr yn y farn ar sgrinio cloddiadau o olwg y cyhoedd pan oedd gweddillion dynol yn cael eu datgelu. Er bod hyn yn gyffredin yn Lloegr, roedd rhai a oedd yn cydymffurfio yn teimlo bod hyn yn lleihau tryloywder ac yn tanio amheuaeth ymysg y cyhoedd.

4.1.7. Roedd digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus ynglŷn â gweddillion dynol neu arteffactau claddu yn ennyn diddordeb mawr, yn aml yn gwerthu allan neu'n denu ciwiau hir. Roedd caniatáu i bobl optio i mewn yn cael ei ystyried yn barchus, ac roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod sgrinio cloddiadau wrth gynnig teithiau am gyfnod penodol neu lwyfannau gwylio o dan orchudd yn taro cydbwysedd da.

4.1.8. Roedd y safbwyntiau ar arddangos gweddillion dynol yn amrywio'n fawr: roedd rhai o'r farn bod hyn yn amhriodol, yn enwedig mewn mannau crefyddol. Roedd eraill o'r farn ei fod yn addysgiadol, yn barchus o'i osod yn ei gyd-destun, ac weithiau'n hanfodol er mwyn anrhydeddu'r meirw. Roedd rhai o blaid penderfynu fesul achos ond yn teimlo nad yw'r canllawiau presennol yn cynnig dulliau digonol ar gyfer cydbwyso ystyriaethau gwyddonol a moesegol.

4.2. Mewnwelediadau Allweddol: Tueddiadau Cyffredin ymhlith y Cyfranogwyr

Archaeolegwyr sydd yn aml yn wynebu'r tensiwn mwyaf uniongyrchol rhwng nodau gwyddonol a rhwymedigaethau moesegol.

Mae **clerigwyr** yn rhoi'r flaenoriaeth i rwymedigaethau ysbrydol a moesol, weithiau yn groes i fuddiannau cyhoeddus neu academaidd.

Mae **Gweithwyr Amgueddfa Proffesiynol** yn cael eu dal rhwng nodau cadwraeth/arddangos a pharch at gyd-destun y gladdedigaeth.

Mae **academyddion** yn pwysleisio mân amrywiadau mewn moeseg a'r angen am ddeialog gynhwysol.

4.3. Dyfyniadau o'r Cyfweliadau:

4.3.1. "Mae ailgladdu yn gwrthod cyfle i bobl i ddysgu... mae yna ormod o ailgladdu o hyd." — *Cynghorydd Polisi*

4.3.2. "Dinistrio yw ailgladdu... mae'n gosod y gweddillion yma y tu hwnt i gyrraedd gwyddoniaeth." — *Bioarchaeolegydd*

4.3.3. "Mae arddangos gweddillion yn helpu i adrodd straeon hunangofiannol... mae'n beth moesegol iawn i'w wneud." — *Cynghorydd Polisi*

4.3.4. "Fe fyddai'r peth yn hollol wrthun i mi pe bawn i eisiau arddangos claddedigaeth... mae'n ymddangos yn hollol anghywir." — *Aelod o staff eglwys sy'n rheoli claddedigaethau*

4.3.5. "Yn bersonol, rwy'n hollol fodlon ar [arddangos]... ond mae'n dibynnu." — *Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwys*

4.3.6. "Parch yw sicrhau bod popeth wedi'i gofnodi'n iawn... dyna beth fyddwn i'n ei gyfrif fel parch." — *Archaeolegydd*

4.3.7. "Mae parch yn golygu adrodd straeon y meirw... eu gwneud nhw'n weladwy ac yn ystyrlon i'r byw." — *Cynghorydd Polisi*

4.3.8. "P'un a ydyn nhw'n gyfan neu wedi'u datgymalu... fe fydden ni'n disgwyl yr un lefel o barch. [Ond....] rydyn ni wedi'u hailgladdu nhw'n barod... y dyfarniad oedd bod eu gwerth ymchwil nhw'n gyfyngedig neu ddim yn bodoli." — *Archaeolegydd*

4.4. Canfyddiadau'r Grwpiau Ffocws:

Adleisiodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws y cyfweliadau gan bwysleisio bod parch yn bryder canolog ond heb ei ddiffinio. Tynnwyd sylw at y canlynol:

4.4.1. Rhaid dangos parch trwy weithredoedd ymarferol, nid bwriadau yn unig.

4.4.2. Efallai na fydd parch proffesiynol at weddillion dynol ac arteffactau claddu byth yn cyrraedd consensws llawn, ond gall gael ei fynegi mewn sawl ffordd ddilys.

4.4.3. Yr her yw cydbwyso'r gwahanol ddeongliadau yma, yn enwedig pan fôn nhw'n gwrthdaro neu pan fo pobl nad ydyn nhw'n arbenigwyr yn disgwyl rhywbeth gwahanol.

4.4.4. Rhaid i ymarferwyr lywio drwy ddisgwyliadau pragmataidd, gwyddonol, addysgol, ysbrydol a chymunedol, sy'n aml yn gwrth-ddweud ei gilydd. Nid yw bob amser yn glir pa un ddylai fod yn flaenoriaeth pan fydd y rhain yn gwrthdaro.

4.4.5. Mae storio gweddillion sydd wedi'u cloddio at y tymor hir yn anodd am fod rhaid iddyn nhw aros ar dir cysegredig - mater sydd yn aml yn cael ei anwybyddu mewn canllawiau seciwlar, gan greu ansicrwydd pan nad oes modd ailgladdu gweddillion ar unwaith neu pan fo angen eu storio dros dro yn ystod y gwaith dadansoddi.

4.4.6. Credid bod biofanciau — samplau bach o weddillion dynol — yn gyfaddawd posibl, gan ganiatáu ymchwil heb gadw sgerbydau cyfan uwchben y ddaear. Roedd y pryderon yn cynnwys cyllid hirdymor, goruchwyliaeth foesegol, ac osgoi cadw gweddillion "yn ddistaw bach".

4.5. Dyfyniadau o'r Grwpiau Ffocws

4.5.1. "Mae angen i barch gael ei ddangos, nid dim ond ei ddatgan."

4.5.2. "Darn bach, bach wedi'i samplu o bob sgerbwd... maen nhw fel petaen nhw'n fodlon ar y syniad yna... i ganiatáu rhagor o ymchwil heb gael y gweddillion."

4.5.3. "Daeth hi'n amlwg yn fuan, na, fyddai [arddangos gweddillion dynol] ddim yn taro deuddeg gyda phobl... Felly nawr beth sy'n cael ei arddangos... yw model 3D... er mwyn lleddfu emosiynau pobl."

4.5.4. "Mae pobl yn meddwl bod ailgladdu bob amser yn barchus, ond weithiau mae cadwraeth yn fwy parchus."

4.5.5. "Mae [esgyrn wedi'u datgymalu] yn dal yn bobl ac mae dal angen eu parchu nhw... dylen nhw gael eu trin yr un fath bob amser."

4.6. Argymhellion ar gyfer safbwyntiau moesegol ar ailgladdu, cadw ac arddangos gweddillion dynol o eglwysi

4.6.1. Pan fydd diffiniadau gwyddonol, moesegol, crefyddol a chymunedol o barch yn gwrthdaro â'i gilydd, gallai hierarchaeth o egwyddorion neu broses flaenoriaethu fwydo'r penderfyniadau.

4.6.2. Gallai strategaethau cyfathrebu clir (e.e. arwyddion, gwaith dehongli, tryloywder, briffio cymunedol) helpu sefydliadau i ddangos bwriad parchus yn ystod prosiectau cymhleth neu ddadleuol.

4.6.3. Gallai canllawiau, hyfforddiant ac offer wedi'u diweddaru, megis ymarferion senario, gweithdai trafod moeseg, paneli rhyngddisgyblaethol, astudiaethau achos, neu fodelau "cymunedau gofal", helpu i sicrhau dealltwriaeth gyffredin a hyblyg o barch.

4.6.4. Gallai dangosyddion mesuradwy (e.e., adborth y cyhoedd, boddhad clerigwyr, dogfennau cyflawn, cadw at brotocolau) helpu i ddangos bod parch yn cael ei roi ar waith.

4.6.5. Gallai meini prawf penderfynu gael eu safoni ar draws sectorau ar gyfer pryd y dylid ailgladdu, cadw neu arddangos gweddillion. Gweler *Historic Royal Palaces, Collections and conservation policies, 03.5.4, Human Remains Policy* (Hawkins, 2024) i gael enghreifftiau.

4.6.6. Gallai system ymarferol o osod blaenoriaethau helpu i nodi achosion sydd angen ymdriniaeth arferol, adolygiad moesegol arbenigol, neu ymgynghoriad ffurfiol â'r gymuned neu'r disgynyddion.

4.6.7. Gallai enghreifftiau neu feini prawf ymarferol, penodol i'r eglwys, helpu gweithwyr proffesiynol i deimlo'n hyderus eu bod yn trin claddedigaethau'n barchus, gan gynnwys storio, tynnu lluniau, cyfathrebu ac arddangos.

4.6.8. Gallai dulliau amgen, megis modelau 3D, casgliadau i'w hastudio ar sail mynediad cyfyngedig, neu baneli adolygu sy'n cael eu cylchdroi, leihau'r pwysau i ddewis rhwng ailgladdu ar unwaith a chadwraeth hirdymor.

4.6.9. Gallai pecyn cymorth helpu archaeolegwyr i negodi gyda phobl nad ydyn nhw'n arbenigwyr mewn eglwysi, gan ddefnyddio astudiaethau achos, efelychiadau, safbwyntiau diwinyddol ar ailgladdu, cynseiliau hanesyddol, neu ymarferion cyfnewid rôl.

4.6.10. Gallai sefydlu eglwysi segur neu eglwysi a ddatgomisiynwyd fel storfeydd rhanbarthol o dan reolaeth i weddillion wedi'u cloddio gydbwyso'r pryderon moesegol, diwinyddol a gwyddonol ynglŷn â mynediad ar gyfer ymchwil (Mays, 2013). Mae enghreifftiau eraill o weddillion dynol sydd wedi'u storio mewn eglwysi gweithredol lle caniateir mynediad i ymchwilwyr achrededig, yn cynnwys Eglwys Sant Pedr yn Barton-upon-Humber, Eglwys y Santes Ffraid yn Llundain, esgyrndy Cadeirlan Caerefrog, esgyrndy Sant Leonard yn Hythe, esgyrndy Eglwys Sant Aidan, Bamburgh ac Eglwys y Santes Fair yn Lowgate yn Hull, ac mae'r rhain yn werth eu hystyried, er y gall fod angen lle a buddsoddiad sylweddol ar eu cyfer. Er hynny, yn dechnegol bernir mai claddedigaeth yw'r casgliad esgyrn yng Nghadeirlan Caerwrangon a byddai angen tystysgrif datgladdu (er bod ganddi Esemptiad Eglwysig yn rhinwedd ei swydd fel cadeirlan ac y byddai angen iddyn nhw wneud cais am ganiatâd i Gomisiwn Ffabrig Eglwysi Cadeiriol Lloegr [CFCE]) i ad-drefnu'r esgyrndy archaeolegol neu i'w gyrchu i'w astudio.

5. RHEOLI ARTEFFACTAU CLADDU (NWYDDAU CLADDU) YW UN O'R MEYSYDD LLE MAE'R CANLLAWIAU AR EU LLEIAF CYSON.

5.1. Anghyson yw'r canllawiau ar nwyddau claddu sy'n dod i'r amlwg mewn eglwysi. Ar weddillion dynol y mae APABE (2017) yn canolbwyntio, heb gynnig fawr ddim cyfarwyddyd ar arteffactau; does gan Gymru ddim polisi penodol (er y caniateir i Amgueddfa Cymru gaffael arteffactau sy'n bodloni trothwy cyfreithiol 'Trysor'), gan adael penderfyniadau i brosiectau unigol neu grwpiau bach.

5.2. Anaml y mae'r polisïau presennol yn mynd i'r afael ag arwyddocâd crefyddol nwyddau claddu, gan eu trin yn bennaf fel gwrthrychau hanesyddol yn hytrach nag eitemau sydd ag ystyr ddiwinyddol.

5.3. Mae arteffactau claddu fel arfer yn cael eu cofnodi yn ystod y gwaith cloddio, ond yn aml bydd eu cyrchfan derfynol yn eisiau yn yr adroddiadau. Gall hyn gael ei achosi gan benderfyniadau sydd heb eu datrys cyn cyhoeddi'r adroddiad neu am fod y cyrchfannau wedi'u cofnodi'n breifat.

5.4. Roedd y dulliau'n amrywio: dadleuai rhai o'r cyfranogwyr y dylai arteffactau gael eu hailgladdu bob amser; roedd eraill o blaid eu cadw pan oedd gan yr eitemau werth hanesyddol neu addysgol.

5.5. Gall arteffactau fynd i amgueddfeydd neu aros o dan berchnogaeth yr eglwys, sy'n arwain at brotocolau anghyson a mynediad anghyson at ddibenion ymchwil.

5.6. Roedd rhai o'r cyfranogwyr, yn enwedig archaeolegwyr a chynllunwyr, yn teimlo nad oedd ganddyn nhw fawr o reolaeth dros y penderfyniadau terfynol a'u bod yn cael eu beio am ganlyniadau na allen nhw ddylanwadu arnyn nhw.

5.7. Roedd dyfarniadau gwerth goddrychol yn siapio penderfyniadau: roedd eitemau cyffredin fel pinnau amdo yn cael eu gweld fel rhai "isel eu gwerth", tra oedd gwrthrychau prinnach fel careglau yn cael eu trin fel rhai "uchel eu gwerth", er gwaethaf consensws archaeolegol bod pob eitem yn cyfrannu at ddeall y gladdedigaeth.

5.8. Dadleuai rhai o'r cyfranogwyr y dylid trin arteffactau â'r un parch â gweddillion dynol, gan eu bod yn rhan o'r gladdedigaeth ac yn adlewyrchu hunaniaeth neu gred. Roedd gwahanu'r rhain yn mentro gwrthrycholi'r gladdedigaeth.

5.9. Roedd y cyfranogwyr yn poeni bod gweddillion ac arteffactau'n cael eu gwahanu yn gorfforol neu mewn dogfennau, gan nodi'r diffyg safonau o ran pryd y mae gwahanu'n briodol a sut i wahanu eitemau'n effeithiol.

5.10. Yn aml, doedd gan eglwysi plwyf ddim gallu na pharodrwydd i gadw arteffactau, oherwydd cyfyngiadau lle, diogelwch neu arbenigedd, felly roedd eitemau yn aml yn cael eu hailgladdu.

5.11. Dywedodd amgueddfeydd mai cyfyngedig oedd y lle storio ac arddangos ond roedden nhw o blaid cadw arteffactau hanesyddol neu ddiwylliannol arwyddocaol i'w hastudio mewn amgueddfeydd neu eglwysi lle bo modd.

5.12. Roedd eglwysi cadeiriol at ei gilydd yn fwy agored i gadw arteffactau "uchel eu gwerth" am eu bod eisoes yn dal casgliadau ac am fod ganddyn nhw isadeiledd ar gyfer gofal ac arddangos.

5.13. Mae eglwysi, yn enwedig eglwysi plwyf, yn aml yn gwrthsefyll cael eu trin fel amgueddfeydd ar gyfer darganfyddiadau archaeolegol.

5.2 Dyfyniadau o'r Cyfweliadau:

5.2.1. "Os yw e'n nwydd claddu diddorol, yn fy marn i fe ddylai fe fynd i amgueddfa." — *Aelod o staff eglwys sy'n ymwneud â rheoli claddedigaethau*

5.2.2. "Does gan eglwysi plwyf... ddim diddordeb mewn gorfod talu i gadw llwyth o blatiau arch." —*Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwysi*

5.2.3. "Dyw eglwysi ddim eisiau talu. Maen nhw'n cael eu cloddio a'u rhoi yn syth nôl i mewn." — *Archaeolegydd*

5.2.4. "Nid cymaint eglwysi cadeiriol, ond eglwysi... maen nhw'n gwrthsefyll cael eu hystyried yn yr un braced ag amgueddfeydd. 'Nid amgueddfa ydyn ni, ond man addoli byw'." — *Cynghorydd Treftadaeth/Aelod o Staff Eglwys*

5.2.5. "Hyd yn oed os nad oes modd cadw'r arteffact yna a'i arddangos o fewn yr eglwys yna, mae angen iddo fod yn gysylltiedig iawn â hi, ble bynnag mae'n cael ei arddangos... mae'r cysylltiad â'r eglwys yn gwbl allweddol." — *Osteolegydd/Gweithiwr Amgueddfa Proffesiynol*

5.2.6. "Mae'n dechrau teimlo ychydig fel helfa drysor... cymryd y pethau da am fod modd eu harddangos a diystyru'r unigolyn." — *Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwysi*

5.2.7. "Mae rhywfaint o drafod o hyd ynglŷn â ble mae'r archif arteffactau yn mynd mewn gwirionedd... lle cyfyngedig yn unig sydd gan y gadeirlan a dim storfa archifau gydnabyddedig." — *Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwysi*

5.2.8. "Os ydych chi'n mynd i ailgladdu person, dylai unrhyw beth gyda nhw gael ei ailgladdu hefyd... dylai gael ei weld yn ei gyfanrwydd." — *Bioarchaeolegydd*

5.2.9. "Rwy'n credu efallai eich bod chi'n teimlo ychydig yn fwy parchus at yr eitemau os ydyn nhw gyda gweddillion dynol. [... ond] mae yna rywfaint o drafod o hyd... fe allai'r gadeirlan archifo arteffactau gydag amgueddfa'r ddinas ar fenthyg parhaol." — *Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwysi*

5.3 Enghreifftiau o Gyfranogwyr

Prosiect lle ymgynghorwyd â pherthnasau ynglŷn â thrin claddedigaethau o'r 19eg ganrif, a chyda'u caniatâd, ailgladdu rhai gweddillion gydag arteffactau ar ôl eu harddangos am gyfnod cyfyngedig.

Roedd un eglwys gadeiriol eisiau cadw un eitem o bwys i'w harddangos ond nid gweddill y casgliad, a fyddai'n arwain at rannu'r archif o nwyddau claddu.

Mynnodd un eglwys gadeiriol ailgladdu'r holl weddillion dynol, ond roedden nhw wrthi'n trafod archifo arteffactau claddu (dodrefn arch, platiau enw, dillad) gydag amgueddfa'r ddinas.

Tabl 4: Tueddiadau Cyffredinol Cefnogaeth a Gwrthwynebiad i Ailgladdu a Chadw Arteffactau Claddu yn ôl Rôl.

Yn debygol o gefnogi ailgladdu	Yn debygol o wrthwynebu ailgladdu ar unwaith
Clerigwyr/Staff Eglwysig: yn pwysleisio parhad ysbrydol, sancteiddrwydd claddu, a gofal bugeiliol.	**Osteolegwyr:** yn pwysleisio gwerth ymchwil hirdymor a photensial gwyddonol yn y dyfodol.
Archaeolegwyr Eglwys/Maes: yn aml yn ildio i ddisgwyliadau'r eglwys.	**Curaduron/Ymchwilwyr Amgueddfeydd:** yn eiriol dros gadwraeth at ddibenion astudio ac addysg gyhoeddus.
Yn debygol o gefnogi arddangos	**Yn debygol o wrthwynebu arddangos**
Staff Amgueddfa/Ymgysylltu â'r Cyhoedd: yn pwysleisio gwerth addysgol ac ymgysylltu â'r cyhoedd.	**Clerigwyr/Staff Eglwysig:** yn ymboeni ag urddas, sancteiddrwydd, a chanfyddiad y cyhoedd.
Ymchwilwyr: o blaid arddangos os gwneir hynny â pharch a chyda chyd-destun.	**Rhai archaeolegwyr:** yn rhybuddio yn erbyn arddangos heb adolygiad moesegol neu fewnbwn gan y gymuned.

5.4. Argymhellion ar gyfer rheoli arteffactau claddu

5.4.1. Creu dulliau ymarferol, megis canllawiau, ffurflenni cadwyn cystodaeth, a chronfeydd data cysylltiedig, i gadw arteffactau a gweddillion dynol o eglwysi yn gysylltiedig ar draws y sefydliadau sy'n ymwneud â'u rheoli neu eu hailgladdu.

5.4.2. Datblygu meini prawf clir ar gyfer pryd y dylai eitemau claddu gael eu hailgladdu, eu cadw i'w hastudio, eu harddangos, eu trosglwyddo i amgueddfeydd, neu eu cofnodi'n ddigidol cyn eu hailgladdu. Mae *Historic Royal Palaces, Collections and conservation policies, 03.5.4, Huna Remains Policy* (Hawkins, 2024) yn enghraifft brin o ymgorffori meini prawf penderfynu ar gyfer arteffactau claddu.

5.4.3. Sefydlu cytundebau i'w defnyddio ymlaen llaw ynglŷn â storio neu arddangos rhwng eglwysi sydd â chyfleusterau cyfyngedig ac eglwysi cadeiriol, amgueddfeydd neu eglwysi cyfagos sydd â chasgliadau.

5.4.4. Darparu awgrymiadau ac enghreifftiau i'w defnyddio gyda phenderfynwyr eglwysig i esbonio sut mae pob gwrthrych yn cael ei werthfawrogi ar sail ei gyd-destun archaeolegol, a hidlo beth ddylai gael ei gadw neu ei ailgladdu a pham.

5.4.5. Creu dogfennau cyfarwyddyd a safonau cyfathrebu ar gyfer y cyhoedd i sicrhau tryloywder ac ymddiriedaeth mewn penderfyniadau ynghylch eitemau claddu, waeth beth fo'u cyrchfan.

5.4.6. Diweddaru/darparu canllawiau ar ble i gofnodi cyrchfan derfynol arteffactau claddu, nid yn unig y gwaith adfer arnyn nhw.

6. MAE PANEL CYNGHORI APABE AR GYFER GWEDDILLION DYNOL YN UCHEL EI BARCH OND HEB EI DDEALL YN DDA NA'I DDEFNYDDIO'N EANG.

Mae'r Panel Cynghori ar Archaeoleg Claddedigaethau yn Lloegr (APABE) yn ffynhonnell arbenigedd ganolog unigryw ynghylch claddedigaethau archaeolegol yn Lloegr, gan gynnwys eglwysi, ac mae'n gweithredu o dan oruchwyliaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda chefnogaeth Historic England ac Eglwys Loegr. Cynhyrchodd y Panel hefyd 'Guidance for Best Practice for the Treatment of Human Remains Excavated from Christian Burial Grounds in England' yn 2017, sef yr unig ddogfen genedlaethol o'i math ym Mhrydain hyd yn hyn. Gan hynny, gofynnodd y prosiect pa mor adnabyddus yw'r panel a chanllawiau APABE, a pha mor effeithiol oedden nhw yn ymarferol.

6.1. Mae canllawiau APABE a'r panel yn gweithredu yn Lloegr yn unig; does dim byd cyfatebol gan Gymru, er bod y cyfranogwyr yn teimlo bod angen un.

6.2. Cyfeiriwyd yn aml at APABE (2017) fel ffynhonnell awdurdodol a chân ei ddefnyddio'n helaeth mewn WSIs ac amodau cynllunio.

6.3. Teimlai'r cyfranogwyr fod canllawiau 2017 yn brin o fanylion ar arteffactau claddu, nad ydyn nhw'n cynnig diffiniad clir o "barch," nad ydyn nhw'n mynd i'r afael â chladdedigaethau nad ydynt yn Gristnogol, a'u bod yn cynnwys adrannau sy'n cael eu hystyried yn anymarferol neu'n rhy agored i'w dehongli.

6.4. Ychydig iawn o ymgysylltu uniongyrchol ag APABE oedd yn digwydd: roedd llawer o'r ymarferwyr heb glywed am y panel erioed, doedden nhw ddim yn siŵr pryd i gysylltu â'r panel na sut, neu doedden nhw ddim yn deall sut mae ei gyngor yn cyd-fynd ag awdurdodaeth hawlebau neu'r gyfraith gynllunio.

6.5. Roedd y rhai oedd wedi cysylltu ag APABE yn teimlo y gallai ei gyngor fod yn rhy llythrennol, yn rhy dechnegol, neu heb ei deilwra'n ddigonol i gyd-destunau gwleidyddol neu fugeiliol.

6.10. Weithiau byddai'r ymarferwyr yn cysylltu â "phwy bynnag fydd yn ateb" yn hytrach nag APABE am nad oedd yr awdurdod a'r cyfrifoldeb yn glir.

6.11. Roedd y cyfranogwyr eisiau trafod mewn amser real, astudiaethau achos, ac enghreifftiau sy'n dangos sut mae cyngor APABE yn cael ei roi ar waith.

6.12. Roedd rhai o'r farn y dylai APABE chwarae rôl gryfach wrth ganoli canllawiau neu gyfeirio defnyddwyr atyn nhw, ond nid o reidrwydd wrth eu llunio.

6.2. Dyfyniadau o'r Cyfweliadau:

6.2.1. "Mae yna feysydd yn yr holl ganllawiau... lle mae elfennau llym... ac eraill sydd efallai ychydig yn fwy agored i gael eu dehongli." — *Archaeolegydd Masnachol*

6.2.2. "Dwy ddim bob amser yn siŵr pryd y dylai APABE fod yn rhan o'r gwaith neu a ydy achos yn ddigon 'arwyddocaol' i fynd ag e atyn nhw." — *Archaeolegydd Masnachol*

6.2.3. "Mae APABE yn teimlo'n bell iawn... Dwi ddim yn credu bod y rhan fwyaf o bobl mewn rolau plwyf neu esgobaeth hyd yn oed yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud." — *Cynghorydd Adeiladau Eglwysig*

6.2.4. "Rydyn ni'n tueddu i ofyn i gydweithwyr yn hytrach nag APABE — does dim llwybr amlwg i gael cyngor ganddyn nhw." — *Archaeolegydd Masnachol*

6.2.5. "Rydyn ni'n sicr wedi gwybod eu bod nhw yno a... maen nhw wedi bod yn adeiladol pan ydyn ni wedi cael sgyrsiau gyda nhw." — *Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwys*

6.3. Canfyddiadau'r Grwpiau Ffocws

6.2.1. Mae APABE yn cael ei werthfawrogi ond heb gael ei ddeall yn dda, yn enwedig gan y rhai sydd heb hyfforddiant archaeolegol arbenigol.

6.2.2. Anaml y bydd canllawiau APABE yn cael eu hymgorffori mewn addysg brifysgol, hyfforddiant ymsefydlu, neu brosesau esgobaethol, gan adael ymarferwyr newydd yn anwybodus ynglŷn â'i berthnasedd.

6.2.3. Mae llawer o ymarferwyr yn dysgu trwy rwydweithiau anffurfiol yn hytrach na hyfforddiant strwythuredig neu baneli cynghori.

6.4. Dyfyniadau o'r Grwpiau Ffocws

6.4.1. "Mae myfyrwyr yn dod allan â sgiliau technegol ond dim syniad am bolisi."

6.4.2. "Mae angen inni ddechrau addysgu [canllawiau a sut i wneud penderfyniadau] ar lefel prifysgol."

6.4.3. "Fe gysyllton ni â sefydliad ffurfiol ac fe wnaeth hynny bethau'n fwy cymhleth."

6.4.4. "Fe hoelion nhw eu sylw ar un agwedd a doedden nhw ddim yn deall y wleidyddiaeth roedden ni'n sownd ynddi."

6.4.5. "Weithiau dyw hi ddim yn glir pwy dylen ni gysylltu â nhw — rydyn ni'n rhoi cynnig ar bwy bynnag sy'n dod yn ôl aton ni."

6.5. Argymhellion ar Ganllawiau a Phanel APABE

6.5.1. Dogfen gyfarwyddyd a phanel cynghori i Gymru sy'n cyfateb i APABE.

6.5.2. Gallai APABE ddatblygu meini prawf (e.e. coed penderfynu, rhestrau gwirio, diagramau llif gwaith, canllawiau "cychwyn cyflym") i benderfynu a yw achos yn briodol ar gyfer eu cyngor nhw; a ddylai'r achos sbarduno cyfranogiad gan APABE yn awtomatig, neu gyfeirio defnyddwyr at y canllawiau presennol.

6.5.3. Gellid gwella gweledegd APABE ymhlith clerigwyr, cynllunwyr, a phobl nad ydyn nhw'n arbenigwyr ac nad ydyn nhw'n ymwneud â'r panel yn uniongyrchol yn aml, drwy ddefnyddio dulliau allgymorth fel briffiadau esgobaethol, diweddariadau awdurdodau cynllunio, a rhwydweithiau amgueddfeydd.

6.5.4. Gallai canllawiau APABE ar gyfer claddedigaethau a gwybodaeth am y panel cynghori gael eu hintegreiddio mewn pecynnau cyfarwyddyd eglwysig, WSIs, a hyfforddiant sector-benodol.

6.5.5. Gallai cynnal arolygon neu ofyn am adborth ar ganlyniadau eu cyngor helpu APABE i ddeall anghenion yr ymarferwyr a deall lle na chafodd eu cyngor ei ddefnyddio am nad oedd yn addas i'r sefyllfa.

7. I EGLWYSI SY'N RHEOLI CASGLIADAU NEU GLODDIADAU ARCHAEOLEGOL MAE YMWNEUD Â'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL A'R CYHOEDD YN PERI RISGIAU O RAN MOESEG AC ENW DA.

7.1. Mae sefydliadau'n methu rheoli'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei bostio, gan greu risgiau o ran enw da a moeseg.

7.2. Mae teithiau cyhoeddus yn boblogaidd ond roedd y cyfranogwyr yn pryderu y gall tynnu lluniau, ffilmio a ffrydio byw cyhoeddus neu yn y cyfryngau cyhoeddus danseilio'u hymdrechion i roi 'parch' yn ystod gwaith cloddio, yn enwedig pan fo gweddillion yn weladwy yn annisgwyl.

7.3. Gall sylw yn y cyfryngau aflunio'r cyd-destun trwy bwysleisio "trysor" neu ddelweddau dramatig, gan arwain at gamddealltwriaeth a gosod straen ar berthnasoedd â chymunedau, eglwysi, neu randdeiliaid.

7.4. Rhaid i atgynyrchiadau digidol a ffisegol gael eu trin a'u trafod yn ofalus; gall modelau neu replicas 3D anghywir gamarwain neu ymddangos yn amharchus os nad ydyn nhw'n cael eu hesbonio'n glir, ac mae angen ystyried eu rôl ddiwinyddol/ysbrydol.

7.5. Mae ffotograffiaeth ddigidol, sganio 3D, modelau, replicas, a biofanciau yn trawsnewid arferion cofnodi ond yn codi materion o ran cywirdeb, moeseg a storio data yn y tymor hir. Gall data digidol gael ei gopïo neu ei ailddefnyddio mewn ffyrdd sy'n amhosibl gyda gweddillion ffisegol, gan ysgogi pryderon am reoli fersiynau, mynediad cyhoeddus, a defnydd priodol.

7.6. Does dim system gyffredin ar gyfer storio neu ddiogelu data digidol ar weddillion dynol. Mae sefydliadau'n defnyddio dulliau anghyson, ac mae llawer ohonyn nhw heb adnoddau ar gyfer rheolaeth hirdymor ddiogel, gan gynyddu risgiau y bydd data'n cael ei golli, ei gamddefnyddio neu ei gamddehongli.

7.7. Roedd ar y cyfranogwyr eisiau rhagor o gefnogaeth ar gyfer cyfathrebu cyhoeddus, polisïau ar ffotograffiaeth, mynediad i'r cyfryngau, ac arferion diogel yn y cyfryngau cymdeithasol yn ystod gwaith sensitif a hynny er mwyn osgoi byrfyfyrio o dan bwysau.

7.2. Dyfyniadau o'r Cyfweliadau

7.2.1. "Mae'n ymladd gyda chwilfrydedd... rhyw fath o ffugdeimlad afiach... 'Drychwch, Mam, maen nhw'n cloddio corff marw'." — *Bioarchaeolegydd/Gweithiwr Amgueddfa Proffesiynol*

7.2.2. "Rydyn ni wedi gorfod meddwl yn ofalus am yr hyn sy'n mynd i olwg y cyhoedd... rydyn ni wedi penderfynu nad oes dim gweddillion dynol o gwbl yn cael eu cynnwys yn y sylw yn y cyfryngau." — *Aelod o Staff Eglwys/Clerigwr*

7.2.3. "Cawson ni gynhadledd i'r wasg drannoeth... doedd yr un ohonon ni wedi cael hyfforddiant mewn gwirionedd... aeth hi'n ffradach." — *Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwysi*

7.2.4. "Mae gan bobl ffonau... mae'n anodd plismona'r ffotograffau neu'r delweddau sy'n cael eu tynnu." — *Bioarchaeolegydd/Gweithiwr Amgueddfa Proffesiynol*

7.2.5. "Mae gwybodaeth ac esboniad yn hanfodol fel bod pobl yn deall ar beth maen nhw'n edrych." — *Cynghorydd Treftadaeth*

7.2. Dyfyniadau o'r Cyfweliadau [parhad]

7.2.6. "Mae angen ichi dawelu'r diddordeb... nid cadw pobl draw o reidrwydd, ond ffyrdd cynnil... atgoffa pobl mai bedd sy'n cael ei gloddio." — *Archaeolegydd Eglwysi Cadeiriol/Eglwysi*

7.2.7. "Mae yna lawer o bethau sensitif... lawer ohonyn nhw'n anodd eu disgrifio mewn polisi." — *Aelod o Staff Eglwys/Clerigwr*

7.2.8. "Fe gododd tipyn o storm yn y cyfryngau... y cwestiwn [nad oedden ni'n ei hoffi] gan y newyddiadurwyr: 'Pa enw ydych chi wedi'i roi iddi?' ... [ond] roedd ganddi ei henw [ei hun]. Roedd hi'n berson go iawn." — *Archaeolegydd/Cynghorydd Polisi*

7.2.9. "Does dim arbenigydd ar y safle bob amser... rhywun sy'n wirioneddol gyfarwydd ag anatomeg sgerbwd... gan ofalu ei fod yn cael ei arddangos yn yr osgo gywir [...] Rydyn ni'n gweld hyn yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol ac rydyn ni wedi gweld achosion proffil uchel lle mae gennych chi sgerbwd wedi'i osod yn anghywir... mae'n rhoi neges [o ddiffyg gofal] i'r cyhoedd." — *Osteolegydd*

7.3. Canfyddiadau'r Grwpiau Ffocws

7.3.1. Mae yna anhawster posibl wrth reoli disgwyliadau'r cyhoedd pan fo gweddillion yn weladwy neu pan fo ffotograffiaeth yn bosibl.

7.3.2. Risg o gamddealltwriaeth pan nad yw'r gwaith cloddio wedi'i esbonio'n glir i'r cyhoedd, e.e., arwyddion neu fyrddau dehongli gwael neu absennol.

7.3.3. Mae'n bwysig cyfathrebu'n agored er mwyn atal sïon neu ddadleuon, ond weithiau gall fod angen cadw gweddillion dynol allan o'r sylw yn y cyfryngau er mwyn osgoi cyffro diangen.

7.3.4. Angen negeseuon clir ynghylch pam mae gweddillion yn cael eu cloddio, eu dadansoddi neu eu hailgladdu. Pan nad yw prosiectau'n mynd ati i esbonio beth sy'n digwydd, gall dyfalu gynyddu'r siawns y bydd naratifau gelyniaethus neu anghywir yn codi, yn enwedig ar-lein.

7.3.5. Pwysleisiwyd bod rhaid trin delweddau digidol â'r un parch â'r gweddillion eu hunain.

7.4. Dyfyniadau o'r Grwpiau Ffocws

7.4.1. "Mae rhai [sganiau 3-D o weddillion dynol] yn cyd-fynd â'r data crai... gallai unrhyw un fynd i mewn ac atgynhyrchu asgwrn dynol o brint 3D [...] Beth sy'n digwydd i'r data yna? Pwy yw perchennog y data yna? Sut mae parch yn cael ei gadw yn y mathau yma o bethau?"

7.4.2. "... Ar ba adeg rydyn ni'n dweud nad yw gwerth gwyddonol mor bwysig â gwybod dymuniadau'r meirw?"

7.5. Argymhellion

7.5.1. Darparu hyfforddiant yn y cyfryngau a negeseuon cytûn i unrhyw un sy'n siarad yn gyhoeddus, gan egluro pwy sy'n siarad, beth sy'n cael ei ddweud, pa lwyfannau sy'n cael eu defnyddio, a beth sydd angen cyd-destun.

7.5.2. Hysbysu'r cymunedau lleol a'r rhanddeiliaid ymlaen llaw am allgymorth arfaethedig er mwyn lleihau syndod a meithrin ymddiriedaeth, gan gynnig sesiynau briffio cynnar cyn i sylw ymddangos sy'n llawn cyffro.

7.5.3. Defnyddio parthau dim lluniau pendant, rheolau dim lluniau, a stiwardiaid sydd wedi'u hyfforddi yn ystod mynediad cyhoeddus neu ymweliadau ysgolion. Wrth wahardd ffotograffiaeth, esboniwch y rhesymau (preifatrwydd, urddas, cyfyngiadau cyfreithiol). Gall canllawiau BABAO ar dynnu lluniau o weddillion dynol lywio'r trafodaethau ar hyn i eglwysi.

7.5.4. Paratoi templedi'r wasg gyda hysbysiadau cyd-destunol byr a Chwestiynau Cyffredin fel bod gwybodaeth gywir ar gael ar unwaith.

7.5.5. Neilltuo cyswllt wedi'i enwi a chynllun uwchgyfeirio syml er mwyn cywiro camwybodaeth yn gyflym ac yn dawel.

7.5.6. Sicrhau cyfranogiad arbenigwyr (e.e. osteolegwyr) fel bod gweddillion dynol yn cael eu trin a'u harddangos a bod lluniau'n cael eu tynnu mewn modd priodol yn ystod gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd neu mewn sylw yn y cyfryngau, ac ymgorffori'r gofyniad yma mewn cynlluniau/canllawiau prosiect.

7.5.7. Datblygu meini prawf i'r sector cyfan ar gyfer adegau pan fydd modelau digidol a replicas yn briodol mewn cyd-destunau eglwysig, gan amlinellu manteision, anfanteision, ac enghreifftiau o'r arferion gorau.

7.5.8. Darparu canllawiau ar gyfer defnyddio llwyfannau agored sy'n storio data ar weddillion dynol, gan sicrhau bod modelau digidol a replicas yn hygyrch ac yn ailadroddadwy.

7.5.9. Wrth gyhoeddi lluniau, mae modelau 3D, neu replicas, dylid cynnwys eu tarddiad, eu pwrpas a'u ffrâm foesegol glir, ac ystyried cyfyngu'r mynediad at setiau data sensitif.

8. MAE CYFRANOGIAD CYMUNEDAU A DISGYNYDDION YN FOESEGOL BWYSIG OND YN GYMHLETH YN YMARFEROL.

8.1. Mae cyfranogiad gan y gymuned a'r disgynyddion yn cael ei werthfawrogi'n eang ond mae'n anodd ei ddiffinio, ei wirio, ei flaenoriaethu neu ei integreiddio yn y fframweithiau cyfreithiol ac ymarferol presennol.

8.2. Er bod polisïau'n crybwyll ymgynghori â chymunedau a disgynyddion [1, 2, 3, 4, 5], roedd y cyfranogwyr yn teimlo nad oes fframweithiau ymarferol ar gyfer cyfranogiad ystyrlon.

8.3. Mae cymryd rhan mewn gwaith cloddio ac ailgladdu yn cael ei ystyried yn foesegol bwysig ond yn anodd ei gyflawni; prin yw'r consensws, a gall y broses lyncu llawer o amser a bod yn gostus.

8.4. Mae hawliadau gan ddisgynyddion yn brin ond yn gymhleth, yn enwedig pan fo enwau'r meirw yr effeithir arnyn nhw (o bosibl) yn hysbys, pan fo cymunedau'n teimlo'n gysylltiedig â safle, neu pan fo profion DNA masnachol yn codi hawliadau newydd ynglŷn ag achau sy'n neu newydd neu'n amhosibl eu gwirio.

8.5. Roedd y cyfranogwyr yn anghytuno o ran pa gymuned i ymgynghori â hi — plwyf, cyhoedd ehangach, grwpiau ffydd, neu gyrff treftadaeth — gan nodi nad oes protocolau cyffredin ynghylch pwy y dylid ymgysylltu â nhw, pa bryd, neu sut i asesu cyfreithlondeb disgynyddion.

8.6. Nododd y cyfranogwyr oedd â rolau cyfreithiol fod hawliadau gan ddisgynyddion yn anodd eu gwirio, yn enwedig yn achos gweddillion dros 100–300 oed.

8.7. Mae penderfyniadau am weddillion mewn cyd-destunau eglwysig yn dod o dan awdurdodaeth hawlebau, gan roi awdurdod cyfreithiol i Eglwys Loegr dros ei hadeiladau a'i chladdedigaethau hi. Hyd yn oed pan fydd gan gymunedau neu ddisgynyddion farn gref, gall y penderfyniadau terfynol fod yn nwylo canghellor yr esgobaeth, a hynny ar sail dyfarniadau blaenorol.

8.8. Does dim safon o ran faint o ddylanwad y dylai disgynyddion ei gael na sut i benderfynu faint o effaith y dylai'r gymuned ei gweld er mwyn cael siapio penderfyniadau.

8.9. Mae safbwyntiau cymunedol yn aml yn amrywiol neu'n wrthgyferbyniol, a does gan y gweithwyr proffesiynol ddim canllawiau ar sut i'w dehongli neu eu cydbwyso.

8.10. Mae ymgysylltu yn aml yn digwydd yn rhy hwyr neu dim ond pan fydd dadleuon yn codi; pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen cyfathrebu cynharach, cliriach a mwy strwythuredig.

8.11. Mewn cyd-destunau eglwysig, gall awdurdodaeth hawlebau drechu neu gyfyngu ar gyfranogiad y gymuned neu'r disgynyddion, gan greu tensiynau.

8.12. Gall ymgynghori hefyd arwain at or-gywiro, gyda gweddillion yn cael eu cuddio neu eu hymylu.

8.2. Dyfyniadau o'r Cyfweliadau

8.2.1. "Mae'n hanfodol cynnig y cyfle... os ydych chi'n cynnwys pobl ac yn siarad â nhw, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei werthfawrogi." — *Ymgynghorydd Treftadaeth (Ymgysylltu â'r Cyhoedd)*

8.2.2. "At ei gilydd, y teimlad cyffredinol yw difaterwch gyda llawer o'r gweddillion dynol." — *Cynghorydd Adeiladau Eglwysig*

8.2.3. "Mae'n hollol hanfodol bod disgynyddion hysbys yn cael gwybod... fe dalodd dau ohonyn nhw am adfer beddrodau." — Aelod o *Staff Eglwys/Clerigwr*

8.2.4. "Mae [hawliadau gan ddisgynyddion] yn swnio fel llond tun o gynrhon... fy ngreddf i yw bod hyn yn debygol o orfod parhau i fod yn fater i'r eglwys [benderfynu arno]." — *Cynghorydd Cyfreithiol Esgobaethol/Eglwysig*

8.2.5. "Buon ni'n gweithio gyda disgynyddion... roedden nhw'n gallu dweud hanes teuluol a straeon wrthon ni." — *Clerigwr/Aelod o Staff Eglwys*

8.2.6. "Byddai wedi bod yn braf gwneud astudiaeth... ond mae rhai o'r rhain... doedd dim modd gwneud, am fod y perthnasau'n teimlo ei bod yn ansensitif i'r archaeolegwyr... eu hastudio nhw yn y labordy." —*Archaeolegydd*

8.3. Dyfyniadau o'r Grwpiau Ffocws:

8.3.1. "Dyw hawliadau o'r fath ddim yn debygol o fod yn llwyddiannus yn achos gweddillion dros 300 oed am eu bod yn anodd iawn eu profi. [...] O ran awdurdodaeth hawlebau a rheolau... mae cynsail yn bwysig iawn... bydd yna ddyfarniadau ar gael sy'n berthnasol." — *Osteolegydd/Ymgynghorydd Moeseg Polisi*

8.3.2. "Os ydyn nhw'n ymwybodol o rywun o fewn yr adeilad sydd wedi'i gladdu, maen nhw'n rhoi rhyw lefel o bwysigrwydd i'r peth... yna bydden nhw'n fwy tueddol o'i gadw yn yr adeilad." — *Cynllunydd Treftadaeth*

8.4. Penderfyniadau sydd i'w gwneud

Tueddai'r cyfranogwyr i amlinellu penderfyniadau y mae angen eu gwneud yn hytrach nag argymhellion ar gyfer cyfranogiad disgynyddion/cymunedau:

8.4.1. Sut mae penderfynu pwy y dylech chi ymgynghori â nhw (agosrwydd daearyddol, hunaniaeth ffydd, grwpiau diddordeb lleol, cymdeithasau treftadaeth, etc)?

8.4.2. Pa dystiolaeth y dylid gofyn amdani i gydnabod hawliad disgynyddion (achau wedi'u dogfennu, cofnodion plwyf, tystiolaeth gymunedol, tystiolaeth DNA)?

8.4.3. A ddylai gwahanol lefelau prawf sbarduno lefelau gwahanol o gyfranogiad cymunedol?

8.4.4. Pa gamau ymarferol y dylai sefydliadau eu cymryd pan fydd gweddillion dynol sydd â disgynyddion byw yn cael eu darganfod neu pan allai'r rhain gael eu darganfod: hysbysu pwy? Ymgynghori pryd? Cofnodi penderfyniadau sut? Cyfleu penderfyniadau i gymunedau a theuluoedd sut?

8.4.5. Pan fydd disgwyliadau cymunedol yn gwrthdaro â blaenoriaethau gwyddonol neu ddiwinyddol, pa egwyddorion ddylai lywio'r broses benderfynu? A ddylid creu dull penderfynu haenog?

8.4.6. Pa ddogfennau ddylai fod yn angenrheidiol er mwyn dangos bod safbwyntiau cymunedau neu ddisgynyddion wedi'u clywed, wedi'u hystyried ac wedi'u hymgorffori'n foesegol.

8.4.7. Gall adnoddau fel 'Toolkit for Public Engagement' Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) ddarparu man cychwyn addasadwy i eglwysi yn y cyfamser.

9. CASGLIAD YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad yma yn tynnu sylw at yr angen brys am ddulliau cliriach, mwy cydlynol a mwy moesegol o gloddio, dadansoddi ac ailgladdu gweddillion dynol ac arteffactau claddu mewn eglwysi ledled Cymru a Lloegr. Er bod ymarferwyr yn rhannu ymrwymiad i barchu'r meirw, mae diffyg canllawiau canolog a chyson a chymhlethdod cyd-destunau eglwysig yn creu ansicrwydd ac arferion anwastad. Mae safbwyntiau moesegol gwahanol, cefnogaeth gyfyngedig i benderfynwyr, a bylchau yn rheolaeth arteffactau claddu yn cymhlethu'r dirwedd yma ymhellach. Mae'r argymhellion a gyflwynir yma, sy'n yn amrywio o well canllawiau a hyfforddiant i fframweithiau moesegol cliriach, gwell strategaethau cyfathrebu, a dulliau ymarferol ar gyfer rheoli gweddillion ac arteffactau, yn anelu at gefnogi system fwy tryloyw, atebol a chydweithredol. Bydd cryfhau dealltwriaeth ar draws y sector, gwella gweledegd cyrff cynghori, a sicrhau bod eglwysi, cymunedau a gweithwyr proffesiynol yn gallu llywio drwy'r materion sensitif yma yn hyderus yn helpu i ddiogelu urddas yr ymadawedig ac uniondeb eglwysi, amgueddfeydd ac arferion archaeolegol wrth stiwardio'u gweddillion a'u harteffactau.

10. Y TÎM YMCHWIL

Archaeolegydd claddedigaethau ym Mhrifysgol Lerpwl yw'r **Dr Ruth Nugent**, sy'n arbenigo mewn cloddio ac ailgladdu gweddillion dynol ac eitemau claddu yn eglwysi Prydain. Arweiniodd brosiect *Polisi'r Eglwys ar Ailgladdu* a luniodd yr adroddiad yma a'r *Prosiect Gweddillion Dynol: llyfrgell ddigidol o wyddor ac ymchwiliadau angladdol* (2019-2026). Mae'n Ymddiriedolwr ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith y *Gymdeithas Archaeoleg Eglwysig* a hi oedd golygydd cyfnodolyn y gymdeithas 2022-2024. Mae hefyd yn aelod o fforwm ymgynghorol APABE.

Mae'r **Dr Reanna Phillips** yn archaeolegydd sy'n arbenigo mewn arferion cymdeithasol marwolaeth a chladdu, yn enwedig o'r byd Rhufeinig hyd at ddiwedd oesoedd canol Ewrop. Mae ei hymchwil yn edrych ar arferion angladdol yn bennaf fel prosesau perfformiadol estynedig a roddir ar waith gan y byw. Mae wedi cyhoeddi ar berfformiadau angladd, wedi curadu gwrthrychau a negodiadau cymdeithasol yng nghyd-destun angladdau, ac mae'n datblygu agweddau rhyngddisgyblaethol at farwolaeth, y cof ac archaeoleg y corff. Mae Reanna wedi dysgu archaeoleg a threftadaeth mewn prifysgolion yn y Deyrnas Unedig, cloddiadau maes ac i ddysgwyr o garcharorion mewn carchardai yn y Deyrnas Unedig, ac wedi gweithio ym maes archaeoleg fasnachol.

Bu **Katherine Foster** yn aelod o'r *Prosiect Gweddillion Dynol* (UKRI) ac mae wedi cyhoeddi ar dreftadaeth a pholisi eglwysig, ddoe a heddiw. Mae ei diddordebau'n cynnwys ymchwil, dogfennu, a gwaith ymchwil cydweithredol sy'n gysylltiedig ag astudiaethau ar weddillion dynol.

Mae'r **Dr Adam Daubney** yn arbenigwr darganfyddiadau ac ar hyn o bryd mae'n gweithio i'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy ac fe fu'n aelod o'r *Prosiect Gweddillion Dynol* (UKRI) lle roedd ei ymchwil yn canolbwyntio ar aflonyddu ar gladdedigaethau mewn muriau a nwyddau claddu cysylltiedig mewn eglwysi ac eglwysi cadeiriol. Mae wedi ymgymryd ag amryw o brosiectau masnachol ac ymchwil, gan gynnwys *'Afterlife of Private Collections*' a ariannwyd gan Historic England.

Ymchwilydd ieithyddol yw'r **Dr James O. Butler** ac mae'n arbenigo mewn disgrifio gofodau a chynnal ymchwiliadau ar sail corpws a bu'n aelod o'r *Prosiect Gweddillion Dynol* (UKRI). Roedd ei brif gyfraniad i'r ymchwiliad yma yn canolbwyntio ar eirio, dehongli ac o bosibl datblygu safon ffurfiol o'r cyfamodau cyfreithiol sy'n sail i'r hawliau a'r cyfrifoldebau dros eiddo lle mae disgwyliad rhesymol y gallai gweddillion dynol fodoli mewn rhyw ffordd.

Mae'r **Dr Thomas J. Farrow** yn archaeolegydd claddu sy'n ymwneud â*'r Prosiect Gweddillion Dynol* (UKRI). Mae ei waith yn canolbwyntio ar sut y câi gweddillion dynol wedi'u datgymalu eu rheoli a'u canfod ar safleoedd eglwysi ac eglwysi cadeiriol yn Lloegr, c.1500-c.1900AD.

11. PARTNERIAID Y PROSIECT

Y Dr Louise Hampson yw Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan Astudio Cristnogaeth a Diwylliant, Prifysgol Caerefrog. Yn archifydd proffesiynol yn wreiddiol, mae hi bellach yn gweithio ar ddiwylliant a gwydr lliw canoloesol a modern cynnar. Cwblhaodd PhD mewn Hanes Celf ym Mhrifysgol Caerefrog yn 2016 ar dderbyn a gofalu am wydr lliw yng Nghadeirlan Caerefrog ar ôl yr oesoedd canol. Mae wedi cyhoeddi ar y gadeirlan ac erthyglau ar bynciau mor amrywiol â Sant Thomas Becket a hanes Iddewig canoloesol Caerefrog. Mae llyfr wedi'i seilio ar ei thesis wrthi'n cael ei baratoi gyda chyfres Brill, *Art and Material Culture in Medieval and Renaissance Europe*.

Mae **Alfred Hawkins *BA (Anrh) MA MCIfA*** wedi gweithio yn y sectorau archaeoleg a threftadaeth fasnachol fel ymchwilydd archaeolegol, archaeolegydd ac wedyn arbenigydd adeiladau hanesyddol. Mae'n Guradur Adeiladau Hanesyddol ar gyfer Tŵr Llundain EF ar ran y Palasau Brenhinol Hanesyddol, ac yn Archaeolegydd Eglwys Gadeiriol Caersallog a Portsmouth. Yn y Palasau Brenhinol Hanesyddol mae wedi cynghori ar brosiectau datblygu ar raddfa fawr gan gynnwys *Beyond the Deepening Shadow* a *Superbloom* ochr yn ochr â llawer o brosiectau cadwraeth eraill ar draws y safleoedd yma. Mae Alfred yn arbenigydd mewn hanes, pensaernïaeth ac archaeoleg Tŵr Llundain a'r Tŷ Gwledda, Whitehall, arferion gorau archaeolegol a gweddillion dynol, cadwraeth adeiladau, a chyfraith yr eglwys, gyda diddordeb arbennig yng nghadwraeth ac archaeoleg Priodoriaethau ac Eglwysi Cadeiriol Brenhinol. Ochr yn ochr â hyn, mae Alfred yn ymddangos ar y sgrin yn rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol y Palasau Brenhinol Hanesyddol a rhaglenni dogfen gan gynnwys Digging for Britain ar BBC 2, Inside the Tower of London ar Channel 5, ac Unearthed ar Discovery Channel.

Mae'r **Palasau Brenhinol Hanesyddol** yn elusen annibynnol sy'n caru ac yn gofalu am chwech o'r palasau mwyaf rhyfeddol yn y byd: Tŵr Llundain EF; Palas Hampton Court; Tŷ Gwledda, Whitehall; Palas Kensington; Palas Kew (gan gynnwys Bwthyn y Frenhines Charlotte a'r Pagoda); a Chastell a Gerddi Hillsborough. Rydym yn Sefydliad Ymchwil Annibynnol ac mae'n tîm cadwraeth a chasglu arbenigol yn gofalu am fwy na 60,000 o wrthrychau, gan gynnwys y Casgliad Gwisgoedd Seremonïol Brenhinol sydd o bwys rhyngwladol, casgliad o fwy na 10,000 o eitemau o wisg frenhinol a gwisg llys hanesyddol, o'r 16eg ganrif hyd heddiw. Rydym yn cynnal ymchwil o'r radd flaenaf mewn gwyddoniaeth a chadwraeth treftadaeth ac yn gofalu am rai o'r adeiladau a'r casgliadau pwysicaf yn y byd.

Mae **Suzanne Evans** yn rheolwr prosiectau treftadaeth eglwysig, ac ar hyn o bryd mae'n ymgymryd ag ymchwil ddoethurol ym Mhrifysgol Caer ar gofebau angladdol canoloesol diweddarach a defnyddio technolegau digidol i ddehongli archaeoleg eglwysig. Hi yw sylfaenydd *Ecclesia Rose*, sy'n cefnogi eglwysi gyda phrosiectau ad-drefnu, cadwraeth, ymgynghori cymunedol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Yn flaenorol, bu Sue yn gweithio mewn gwasanaethau amgueddfeydd fel curadur a chynghorydd archaeoleg, ac mae ganddi brofiad mewn cloddio, rheoli casgliadau, dehongli treftadaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae hi hefyd yn un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Llangollen ac yn aelod o Bwyllgor Llywio Treftadaeth y Tirweddau Cenedlaethol.